Y Pab Adrian IV *m.* 1159

Pab yr Eglwys Gatholig Rufeinig

Adrian oedd yr unig Sais a etholwyd yn Bab ar yr Eglwys Gatholig Rufeinig. Gan fod cymaint o chwedlau wedi tyfu amdano dros y canrifoedd anodd iawn yw gwahaniaethu rhwng y gau a'r gwir.

Ganed ef nid nepell o St Albans a rhoddwyd iddo'r enw Nicholas. Enw ei dad oedd Richard a drodd yn fynach yn St Albans. Efallai bod ei dad yn offeiriad priod oherwydd yn ystod teyrnasiad Adrian IV bu gwrthdaro gyda'r ymerawdwr Frederick Barbarossa a defnyddiwyd y ffaith hon i bardduo enw Adrian.

Aeth i Arles lle y treuliodd beth amser mewn ysgol ac fe'i dyrchafwyd yn ganon rheolaidd ac yna yn abad St Ruf gerllaw Avignon. Yno, daeth i sylw'r Pab Eugenius III a'i gwnaeth yn gardinal-esgob Albano. Fel rhan o'r swydd hon fe'i hanfonwyd i Lychlyn. Roedd ei waith cenhadol mor llwyddiannus yno fel y'i gelwid yn Apostol Llychlyn. Ym mis Medi 1152 llywyddodd gyngor o eglwysi Norwyaidd yn Nidaros (Trondheim yn awr) a sefydlwyd talaith eglwysig yno. Yn Sweden cynullodd gyngor Linköping ac aildrefnodd yr eglwys Swedaidd o dan archesgobaeth Ddanaidd Lund. Ymddengys iddo deithio trwy Loegr ar ei ffordd i Norwy.

Bu farw olynydd Eugenius III, sef Anastasius IV ar 3 Rhagfyr 1154. Dewiswyd Nicholas fel Pab a mabwysiadodd yr enw Adrian. Ddydd Sul 5 Rhagfyr fe'i gorseddwyd ac fe'i coronwyd yn eglwys Sant Pedr, Rhufain. Yn y cyfnod hwn roedd sefyllfa'r Pab yn ansicr oherwydd bygythiadau Arnold o Brescia a rhai o'r seneddwyr. Oherwydd hynny gadawodd y Pab yn fuan ar ôl Pasg 1155 i Biterbo. Ei nod bryd hynny oedd cael cefnogaeth yr ymerawdwr Frederick Barbarossa yn y ddinas ac yr oedd Frederick, fel ymerawdwr newydd, am gael ei goroni gan y Pab. Cyfarfu'r ddau yn Nepi ym mis Mehefin 1155 a buont yn ceisio cael y gorau ar ei gilydd. Gwrthododd Frederick ddilyn yr arferiad lle roedd disgwyl iddo dywys ceffyl y Pab a'i gynorthwyo i ddod oddi ar y ceffyl. Yna gwrthododd Adrian roi iddo'r gusan o heddwch. Roedd

Frederick fodd bynnag yn dal eisiau i'r Pab ei goroni. Yn y diwedd daethpwyd i gyd-ddealltwriaeth; tywysodd Frederick y ceffyl ac fe'i coronwyd yn ymerawdwr mewn seremoni a ystyrid yn un ddiwygiedig. Er hynny pan ymosodwyd ar diroedd y Pab gan William I, brenin Sicily, ni ddaeth Frederick i'w gynorthwyo a gadawyd Adrian fwy neu lai yn alltud yn Tiboli. Wedi i William goncro'r Groegiaid a'r Apuliaid daeth Adrian i gytundeb ag ef trwy roi tiroedd iddo. Yn sgil hynny addawodd William ei deyrngarwch i'r Pab. Gwaethygodd y berthynas rhwng y babaeth a'r ymerodraeth.

Nid anghofiodd Adrian IV ei famwlad, Lloegr, yn ystod cyfnod ei deyrnasiad. Bu'n hael iawn tuag at yr abaty yn St Albans. Un peth arwyddocaol iawn a wnaeth oedd llunio bwl *Laudabiliter*, lle y rhoddodd Iwerddon yn nwylo Harri II. Hyrwyddodd hefyd y duedd o ganoli Pabyddiaeth yn Rhufain trwy ddatgan mai llys y Pab yn Rhufain oedd llys terfynol Pabyddiaeth. Cyn marw Adrian IV yn Anagni ar 1 Medi 1159 penododd olynydd iddo'i hun sef Cardinal Bernard, esgob Porto. Claddwyd ei weddillion yn eglwys Sant Pedr, Rhufain.